OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 873 (Cy.88) (C.37)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU
GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 Cychwyn (Rhif 2) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud	- -	*23 Mawrth 2004*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 199(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 Cychwyn (Rhif 2) (Cymru) 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, "ystyr Deddf 2003" yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Y diwrnod penodedig

2. 1 Ebrill 2004 yw'r diwrnod a bennwyd ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol Deddf 2003—

(a) adran 47;

(b) adrannau 70 i 75;

(c) ac eithrio adran 94(6) i (8), y darpariaethau ym Mhennod 6 o Ran 2 o Ddeddf 2003 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym(**2**);

(d) adrannau 109, a 142 i 145;

(**1**) 2003 p. 43. Rhoddir y pwerau i'r awdurdod priodol. *Gweler* yn adran 199(2) y diffiniad o "appropriate authority" at ddibenion adran 199(1).

(**2**) *Gweler* adran 199(4) o Ddeddf 2003

(e) mewn perthynas â Chymru, adrannau 106, 108, 111, ac adran 196 a Rhan 2 o Atodlen 14 i'r graddau y maent yn berthnasol i adran 31(6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**3**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

John Marek
23 Mawrth 2004 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 2000 p.14.
(**4**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Dyma'r ail orchymyn cychwyn y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i wneud o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("y Ddeddf"). Mae'n dwyn i rym ar 1 Ebrill 2004 ddarpariaethau penodol y Ddeddf mewn cysylltiad â Chymru.

Mae Erthygl 2(a) yn dwyn i rym adran 47 o'r Ddeddf sy'n caniatáu i'r Cynulliad baratoi a chyhoeddi datganiadau o safonau mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gyrff y GIG yng Nghymru ac ar eu cyfer.

Mae Erthygl 2(b) yn cychwyn Pennod 4 o Ran 2 o'r Ddeddf sy'n darparu i'r Cynulliad gynnal adolygiadau o ddarpariaeth gofal iechyd gan gyrff y GIG yng Nghymru ac ar eu cyfer, ac ymchwiliadau i'r ddarpariaeth honno, ac mae'n rhoi i'r Cynulliad hawliau mynediad a phwerau i ofyn am wybodaeth ac esboniadau mewn cysylltiad ag adolygiadau ac ymchwiliadau o'r fath.

Mae Erthygl 2(c) yn cychwyn Pennod 6 o Ran 2 o'r Ddeddf, sy'n darparu i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal adolygiadau, ymchwiliadau ac arolygiadau i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Erthygl 2(d) yn cychwyn darpariaethau eraill y Ddeddf sy'n ymwneud â Chymru, sef: (i) adran 109, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ystyried yn benodol yr angen am ddiogelu a hybu hawliau a lles plant wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol; (ii) adran 142, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi adroddiadau blynyddol ynghylch ei swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol a gofal iechyd; (iii) adran 143, sy'n rhoi pŵer i'r Cynulliad i ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd wrth arfer un o'i swyddogaethau rheoleiddio neu arolygu gofal cymdeithasol a gofal iechyd at ddibenion un arall o'r swyddogaethau hynny; (iv) adran 144 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch ymchwiliadau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a wneir o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; a (v) adran 145, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad a'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd gydweithredu â'i gilydd.

Mae Erthygl 2(e) yn cychwyn darpariaethau penodol y Ddeddf mewn perthynas â Chymru, sef: (i) adran 106, sy'n egluro'r diffiniad o "independent medical agency" yn Neddf Safonau Gofal 2000; (ii) adran 108, sy'n diwygio pwerau darpariaethau arolygu Deddf Safonau Gofal 2000; a (iii) adran 111, sy'n diwygio Deddf Plant 1989 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau gael eu cyhoeddi yn dilyn arolygiadau o ysgolion a cholegau byrddio.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a restrir yn y tabl isod wedi'u dwyn i rym drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn. Ac eithrio lle dangosir hynny, cafodd y darpariaethau a gychwynnwyd gan OS 2003/3346 ac OS 2004/759 eu cychwyn mewn perthynas â Chymru a Lloegr. Cafodd y darpariaethau a gychwynnwyd gan OS 2004/288 eu cychwyn mewn perthynas â Lloegr. Cafodd y darpariaethau a gychwynnwyd gan OS 2004/480 (W.49) eu cychwyn mewn perthynas â Chymru.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 1	1.4.2004	2004/759

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adrannau 2 i 4	1.1.2004	2003/3346
Adrannau 5 i 20	1.4.2004	2004/759
Adrannau 22 i 35	1.4.2004	2004/759
Adran 36	1.1.2004	2003/3346
Adrannau 37 i 39	1.4.2004	2004/759
Adran 40	1.1.2004	2003/3346
Adran 41	8.1.2004	2003/3346
Adran 42 o ran Lloegr	1.1.2004	2003/3346
Adran 43	11.3.2004	2004/759
Adran 44	1.4.2004	2004/759
Adrannau 45 a 46	1.4.2004	2004/759
Adrannau 48 a 49	1.4.2004	2004/759
Adran 50(1) (yn rhannol)	1.4.2004	2004/759
Adran 50(1) (yn rhannol)	1.4.2006	2004/759
Adran 50(2) a (3)	1.4.2005	2004/759
Adran 50(4)	1.4.2006	2004/759
Adran 50(5)	1.4.2004	2004/759
Adran 51(1) i (3) a (6)	1.4.2004	2004/759
Adran 51(4)	1.4.2005	2004/759
Adran 52(1) i (4), (6) a (7)	1.4.2004	2004/759
Adran 52(5)	1.4.2005	2004/759
Adrannau 53 i 57	1.4.2004	2004/759
Adrannau 60 a 61	1.4.2004	2004/759
Adrannau 64 i 68	1.4.2004	2004/759
Adrannau 76 i 84 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adrannau 87 i 91 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 102	1.4.2004	2004/759
Adran 103	1.4.2004	2004/759
Adran 104 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 106	1.4.2004	2004/759
Adran 108	1.4.2004	2004/759
Adran 110 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 111	1.4.2004	2004/759
Adran 112 o ran Lloegr	11.3.2004	2004/759

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adrannau 118 a 119	1.6.2004	2004/759
Adran 120 a 121	1.4.2004	2004/759
Adran 123	1.4.2004	2004/759
Adran 124	1.4.2004	2004/759
Adran 125 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 126	1.4.2004	2004/759
Adran 127 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 128	1.4.2004	2004/759
Adran 129 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 130	1.4.2004	2004/759
Adran 131 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 132	1.4.2004	2004/759
Adran 133 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 134	1.4.2004	2004/759
Adran 135 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 136 i 138	1.4.2004	2004/759
Adran 139 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 140	1.4.2004	2004/759
Adran 141 o ran Lloegr	1.4.2004	2004/759
Adran 146	1.4.2004	2004/759
Adran 147 o ran Lloegr (yn rhannol)	1.1.2004	2003/3346
Adran 147 (yn rhannol)	8.1.2004	2003/3346
Adran 147 o ran Lloegr (yn rhannol)	1.3.2004	2004/288
Adran 147 o ran Lloegr (yn rhannol)	11.3.2004	2004/759
Adran 147 o ran Lloegr (yn rhannol)	1.4.2004	2004/288
Adran 147 o ran Lloegr (yn rhannol)	1.4.2004	2004/759
Adran 147 (yn rhannol)	1.4.2004	2004/759
Adran 147 (yn rhannol)	1.6.2004	2004/759
Adran 148	1.1.2004	2003/3346
Adran 174 o ran Cymru (yn rhannol)	28.2.2004	2004/480